

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 4 Rhagfyr 2025
Tabled on 4 December 2025

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill

Joel James

60

Section 6, page 8, after line 21, insert –

‘() Subsection (4) does not apply where the applicant and all the members of the applicant’s household have no local connection with any local housing authority in England or Wales, or with any local authority in Scotland or with Northern Ireland.’

Adran 6, tudalen 8, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

‘() Nid yw is-adran (4) yn gymwys pan nad oes gan y ceisydd na holl aelodau aelwyd y ceisydd ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru na Lloegr, nac ag unrhyw awdurdod lleol yn yr Alban na Gogledd Iwerddon.’

Joel James

61

Section 18, page 19, line 8, after ‘(b)’, insert ‘subject to subsection ([])’.

Adran 18, tudalen 19, llinell 9, ar ôl ‘(b)’, mewnosoder ‘yn ddarostyngedig i is-adran ([])’.

Joel James

62

Section 18, page 19, line 33, after ‘that’ at the first place where it occurs on a line, insert ‘, subject to subsection ([])’.

Adran 18, tudalen 19, llinell 33, ar ôl ‘amgylchiadau’, mewnosoder ‘, yn ddarostyngedig i is-adran ([])’.

Joel James

63

Section 18, page 19, after line 35, insert –

- ‘() The local housing authority may provide or continue, as the case may be, the help of the kind required by section 76A(2) in the following circumstances –
- (a) where an applicant’s circumstances, including considering whether or not the applicant is vulnerable or requires help to engage with services, are such that the help should be provided or continue;
 - (b) where the landlord is a registered social landlord which is not a local authority, after consultation with the applicant’s landlord it is decided that help should be provided or continued.’.

Adran 18, tudalen 19, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘() Caiff yr awdurdod tai lleol ddarparu neu barhau i ddarparu, yn ôl y digwydd, y cymorth sy’n ofynnol gan adran 76A(2), o dan yr amgylchiadau a ganlyn –
- (a) pan fo amgylchiadau ceisydd, gan gynnwys ystyried pa un a yw’r ceisydd yn hyglwyf neu pa un a oes angen help arno i ymgysylltu â gwasanaethau ai peidio, yn golygu y dylid darparu’r cymorth neu barhau i ddarparu’r cymorth;
 - (b) pan fo’r landlord yn landlord cymdeithasol cofrestredig nad yw’n awdurdod lleol, os penderfynir ar ôl ymgynghori â landlord y ceisydd y dylid darparu'r cymorth neu barhau i ddarparu'r cymorth.’.

Joel James

64

Section 20, page 21, line 39, after ‘applicant’, insert ‘and the behaviour in this section results in the authority not being able to exercise their functions under this Chapter safely.’.

Adran 20, tudalen 21, llinell 39, ar ôl ‘ceisydd’, mewnosoder ‘a bod yr ymddygiad yn yr adran hon yn golygu na all yr awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon yn ddiogel.’.

Joel James

65

Section 21, page 22, after line 26, insert –

- ‘() A specified public authority (see section 94B) must take reasonable steps to identify whether a person in Wales in relation to whom the authority exercises functions is or may be homeless or threatened with homelessness.’.

Adran 21, tudalen 22, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- () Rhaid i awdurdod cyhoeddus penodedig (gweler adran 94B) gymryd camau rhesymol i ganfod, o ran person yng Nghymru y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef, a yw neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.'

Joel James

66

Section 21, page 23, line 22, leave out –

'Subsection (5)(b) does not affect any right of the specified public authority, whether by virtue of a contract, enactment or rule of law, to secure vacant possession of any accommodation.'

and insert –

'Subsections (1) to (5) do not affect any right of the specified public authority, whether by virtue of a contract, enactment or rule of law, to secure vacant possession of any accommodation and cannot amount to any available defence to a possession claim made by a specified person.'

Adran 21, tudalen 23, llinell 21, hepgorer –

'Nid yw is-adran (5)(b) yn effeithio ar unrhyw un neu ragor o hawliau'r awdurdod cyhoeddus penodedig, pa un ai yn rhinwedd contract, deddfiad neu reolaeth cyfraith, i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety.'

a mewnosoder –

'Nid yw is-adrannau (1) i (5) yn effeithio ar unrhyw un neu ragor o hawliau'r awdurdod cyhoeddus penodedig, pa un ai yn rhinwedd contract, deddfiad neu reolaeth cyfraith, i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety ac ni allant fod yn gyfystyr ag unrhyw amddiffyniad sydd ar gael yn erbyn hawliad meddiant a wneir gan berson penodedig.'

Joel James

67

Section 21, page 23, line 39, leave out ', but only in relation to individuals to whom it provides or arranges health care services that are not primary care services;'

Adran 21, tudalen 23, llinell 39, hepgorer ', ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol'.

Joel James

68

Section 21, page 24, after line 21, insert –

() all providers of primary education, secondary education and further education in Wales.'

Adran 21, tudalen 24, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

() holl ddarparwyr addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg bellach yng Nghymru.'

Joel James

69

Section 32, page 31, after line 3, insert –

‘() In section 95 (co-operation), for subsection (1) substitute –

“(1) A council of a county or county borough in Wales must make arrangements to promote co-operation between the officers of the authority who exercise its social services functions and those who exercise its functions as the local housing authority with a view to achieving the following objectives in its area –

- (a) the prevention of homelessness,
- (b) that suitable accommodation is or will be available for people who are or may become homeless,
- (c) that satisfactory support is available for people who are or may become homeless,
- (d) the development and delivery of a protocol for handling cases involving persons in particular need of support, and
- (e) the effective discharge of its functions under this Part.

(2) The Welsh Ministers may give guidance on this section, to which a council or a county or a county borough council in Wales must have regard in the exercise of their functions.”.

Adran 32, tudalen 31, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘() Yn adran 95 (cydweithredu), yn lle is-adran (1) rhodder –

“(1) Rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng swyddogion yr awdurdod sy’n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a’r rhai hynny sy’n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol gyda’r nod o gyflawni’r amcanion canlynol yn ei ardal –

- (a) atal digartrefedd,
- (b) bod llety addas ar gael neu y bydd ar gael ar gyfer pobl sy’n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,
- (c) bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sy’n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,
- (d) datblygu a chyflwyno protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â phersonau y mae angen cymorth arnynt yn benodol, ac
- (e) arfer ei swyddogaethau yn effeithiol o dan y Rhan hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar yr adran hon, y mae rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau.”.

Joel James

70

Section 33, page 32, after line 28, insert –

- ‘() Where a local housing authority makes a request under subsection (1), it must provide the social landlord with all relevant information about the applicant and any members of their household so as to allow the social landlord to consider the request.’.

Adran 33, tudalen 32, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() Pan fo awdurdod tai lleol yn gwneud cais o dan is-adran (1), rhaid iddo ddarparu’r holl wybodaeth berthnasol am y ceisydd ac unrhyw aelodau o’i aelwyd i’r landlord cymdeithasol er mwyn caniatáu i’r landlord cymdeithasol ystyried y cais.’.

Joel James

71

Section 33, page 32, after line 31, insert –

- ‘() It would be a good reason if the social landlord does not have housing accommodation that would be available for an allocation of social housing under section 160B of the Housing Act 1996.’.

Adran 33, tudalen 32, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘() Byddai’n rheswm da os nad oes gan y landlord cymdeithasol lety tai a fyddai ar gael i ddyrannu tai cymdeithasol o dan adran 160B o Ddeddf Tai 1996.’.

Joel James

72

Section 33, page 32, after line 36, insert –

- ‘() The local housing authority making the request under this section must comply with any reasonable request for information in relation to that request made to it by the social landlord in connection with the exercise of the duties under this section.’.

Adran 33, tudalen 32, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r awdurdod tai lleol sy’n gwneud y cais o dan yr adran hon gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth mewn perthynas â’r cais hwnnw a wneir iddo gan y landlord cymdeithasol mewn cysylltiad ag arfer y dyletswyddau o dan yr adran hon.’.

Joel James

73

Section 33, page 33, line 1, after ‘guidance’, insert ‘which must be in place prior to the enactment of this section’.

Adran 33, tudalen 33, llinell 1, ar ôl ‘fath’, mewnosoder ‘y mae rhaid iddynt fod ar waith cyn deddfu’r adran hon’.

Joel James

74

Section 33, page 34, after line 3, insert –

[] Information-sharing and multi-agency approach in relation to homelessness and allocations

- (1) This section applies for the purposes of –
 - (a) preventing homelessness;
 - (b) helping to secure accommodation for persons who are homeless or threatened with homelessness;
 - (c) making or reviewing allocations of housing accommodation;
 - (d) the development and delivery of a protocol for handling cases involving persons in particular need of support;
 - (e) supporting the exercise of functions conferred by or under this Act and the Housing Act 1996.
- (2) A local housing authority may disclose information to any specified person where the disclosure is –
 - (a) necessary or expedient for the purposes set out in subsection (1), and
 - (b) made in accordance with data protection legislation.
- (3) Any specified person may request disclosure of information from a local housing authority where the information is required for any purpose set out in subsection (1).
- (4) The local housing authority must comply with the request for the disclosure of information unless the local housing authority considers that doing so would –
 - (a) be incompatible with the local housing authority’s own duties, or
 - (b) otherwise have an adverse effect on the exercise of the local housing authority’s functions.
- (5) For the purposes of this section, “specified person” is as defined by sections 94A and 94B of this Act.
- (6) A specified person receiving information under this section may use that information only for the purposes for which it was disclosed.
- (7) Information disclosed under this section must be –
 - (a) the minimum amount necessary to achieve the purpose for which it is disclosed, and
 - (b) handled and stored in accordance with –
 - (i) the Data Protection Act 2018,
 - (ii) the UK GDPR and,
 - (iii) any guidance issued by the Welsh Ministers under this Act.
- (8) Nothing in this section authorises the disclosure of information –
 - (a) which would contravene data protection legislation, or
 - (b) which would prejudice the prevention or detection of crime, or the prosecution of offenders.

- (9) The Welsh Ministers may issue guidance to specified persons about –
- (a) the circumstances in which information may be shared under this section, and
 - (b) safeguards to be applied when sharing personal data.
- (10) A specified person must have regard to any guidance issued under subsection (9).”

Adran 33, tudalen 34, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

[] Rhannu gwybodaeth a dull amlasiantaeth mewn perthynas â digartrefedd a dyraniadau

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddibenion –
- (a) atal digartrefedd;
 - (b) helpu i sicrhau llety ar gyfer personau sy’n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd;
 - (c) gwneud neu adolygu dyraniadau llety tai;
 - (d) datblygu a chyflwyno protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â phersonau y mae angen cymorth arnynt yn benodol;
 - (e) cefnogi arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon a Deddf Tai 1996.
- (2) Caiff awdurdod tai lleol ddatgelu gwybodaeth i unrhyw berson penodedig pan fo’r datgeliad –
- (a) yn angenrheidiol neu’n hwylus at y dibenion a nodir yn is-adran (1), a
 - (b) wedi’i wneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data.
- (3) Caiff unrhyw berson penodedig ofyn i wybodaeth gael ei datgelu gan awdurdod tai lleol pan fo’r wybodaeth yn ofynnol at unrhyw ddiben a nodir yn is-adran (1).
- (4) Rhaid i’r awdurdod tai lleol gydymffurfio â’r cais i wybodaeth gael ei datgelu oni bai bod yr awdurdod tai lleol yn ystyried y byddai gwneud hynny –
- (a) yn anghydnaws â dyletswyddau’r awdurdod tai lleol ei hun, neu
 - (b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau’r awdurdod tai lleol.
- (5) At ddibenion yr adran hon, mae ystyr “person penodedig” fel y’i diffinnir gan adrannau 94A a 94B o’r Ddeddf hon.
- (6) Ni chaiff person penodedig sy’n cael gwybodaeth o dan yr adran hon ddefnyddio’r wybodaeth honno ond at y dibenion y’i datgelwyd ar eu cyfer.
- (7) O ran gwybodaeth a ddatgelir o dan yr adran hon –
- (a) rhaid iddi fod yr isafswm sy’n angenrheidiol er mwyn cyflawni’r diben y’i datgelir ar ei gyfer, a



- (b) rhaid ymdrin â hi a’i storio yn unol â –
 - (i) Deddf Diogelu Data 2018,
 - (ii) GDPR y DU, a
 - (iii) unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon.
- (8) Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon sy’n awdurdodi datgelu gwybodaeth –
 - (a) a fyddai’n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, neu
 - (b) a fyddai’n rhagfarnu atal neu ddarganfod trosedd, neu erlyn troseddwyr.
- (9) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i bersonau penodedig am –
 - (a) yr amgylchiadau pan ganiateir rhannu gwybodaeth o dan yr adran hon, a
 - (b) y mesurau diogelwch i’w cymhwyso wrth rannu data personol.
- (10) Rhaid i berson penodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (9).’.

Joel James

75

Page 37, after line 20, insert a new section –

[] Priorities in allocating housing accommodation: local connection exception

- (1) Section 167 of the 1996 Act is amended as follows.
- (2) In subsection (2A)(c), after ‘district’, insert ‘, except in relation to a relevant person.’
- (3) After subsection (2A) insert –
 - “() A relevant person is a person who –
 - (a) is serving in the regular forces or who has served in the regular forces,
 - (b) has recently ceased, or will cease to be entitled, to reside in accommodation provided by the Ministry of Defence following the death of that person's spouse or civil partner where –
 - (i) the spouse or civil partner has served in the regular forces, and
 - (ii) their death was attributable (wholly or partly) to that service, or
 - (c) is serving or has served in the reserve forces and who is suffering from a serious injury, illness or disability which is attributable (wholly or partly) to that service.”.

Tudalen 37, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

[] Blaenoriaethau o ran dyrannu llety tai: eithriad cysylltiad lleol

- (1) Mae adran 167 o Ddeddf 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn is-adran (2A)(c), ar ôl 'district', mewnosoder ', except in relation to a relevant person.'
- (3) Ar ôl is-adran (2A) mewnosoder –
- “() A relevant person is a person who –
- (a) is serving in the regular forces or who has served in the regular forces,
 - (b) has recently ceased, or will cease to be entitled, to reside in accommodation provided by the Ministry of Defence following the death of that person's spouse or civil partner where –
 - (i) the spouse or civil partner has served in the regular forces, and
 - (ii) their death was attributable (wholly or partly) to that service, or
 - (c) is serving or has served in the reserve forces and who is suffering from a serious injury, illness or disability which is attributable (wholly or partly) to that service.”.

Joel James

76

Section 38, page 37, line 26, after '(1)', insert 'Subject to subsection (2),'

Adran 38, tudalen 37, llinell 27, ar ôl '(1)', mewnosoder 'Subject to subsection (2),'

Joel James

77

Section 38, page 37, after line 29, insert –

- “() For the purpose of this section, “housing accommodation” –
- (a) means “social housing” as defined by section 68(1)(a) of the Housing and Regeneration Act 2008, and
 - (b) is not “social housing” if any of the following exceptions apply –
 - (i) Exception 1 is accommodation let on the open market;
 - (ii) Exception 2 is accommodation made available only to students in full-time education or training;
 - (iii) Exception 3 is a care home (within the meaning of section 197 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014);
 - (iv) Exception 4 is accommodation provided in response to a request by the Secretary of State under section 100 of the Immigration and Asylum Act 1999 (c. 33) (support for asylum seekers);
 - (v) Exception 5 is supported housing;
 - (vi) Exception 6 is property of a kind specified by regulations made by the Welsh Ministers.’.

Adran 38, tudalen 37, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘() For the purpose of this section, “housing accommodation” –

- (a) means “social housing” as defined by section 68(1)(a) of the Housing and Regeneration Act 2008, and
- (b) is not “social housing” if any of the following exceptions apply –
 - (i) Exception 1 is accommodation let on the open market;
 - (ii) Exception 2 is accommodation made available only to students in full-time education or training;
 - (iii) Exception 3 is a care home (within the meaning of section 197 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014);
 - (iv) Exception 4 is accommodation provided in response to a request by the Secretary of State under section 100 of the Immigration and Asylum Act 1999 (c. 33) (support for asylum seekers);
 - (v) Exception 5 is supported housing;
 - (vi) Exception 6 is property of a kind specified by regulations made by the Welsh Ministers.’.

Joel James

78

Section 38, page 37, line 32, after ‘Wales’, insert –

’, and

- () manage its housing stock to comply with any of its policies, duties, contractual obligations and functions including complying with the provisions of any relevant legislation including the Renting Homes (Wales) Act 2016 and any request under section 96A, Housing (Wales) Act 2014’.

Adran 38, tudalen 37, llinell 33, ar ôl ‘Wales’, mewnosoder –

’, and

- () manage its housing stock to comply with any of its policies, duties, contractual obligations and functions including complying with the provisions of any relevant legislation including the Renting Homes (Wales) Act 2016 and any request under section 96A, Housing (Wales) Act 2014’.

Joel James

79

Section 42, page 40, after line 19, insert –

- ‘() Section 9 comes into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by Welsh statutory instrument, only after the Welsh Ministers are satisfied that housing supply in Wales is robust.

- () The Welsh Ministers must by regulations make provision specifying when housing supply in Wales is robust, for the purpose of subsection (*[first subsection inserted by this amendment]*).’.

Adran 42, tudalen 40, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘() Daw adran 9 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig, dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y cyflenwad o dai yng Nghymru yn gadarn.
- () Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy’n pennu pryd y bydd y cyflenwad tai yng Nghymru yn gadarn, at ddiben is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*).’.

Joel James

80

Schedule 1, page 45, after line 26, insert –

““primary education” (*“addysg gynradd”*), “secondary education” (*“addysg uwchradd”*) and “further education” (*“addysg bellach”*) have the meaning given by section 2 of the Education Act 1996.”.

Atodlen 1, tudalen 45, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

“mae i “addysg gynradd” “addysg uwchradd” ac “addysg bellach” yr ystyr a roddir i “primary education”, “secondary education” a “further education” gan adran 2 o Ddeddf Addysg 1996.”.

